# Hysbysiad Statudol

## Sefydlu Ysgol Arbennig Newydd

## Ffordd Hampden, Plas Madoc, Wrecsam, LL14 3US

### Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018)

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

Hysbysir trwy hyn, yn unol ag adran 44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, wedi ymgynghori â'r bobl angenrheidiol, yn cynnig:

Sefydlu ysgol arbennig gymunedol cyfrwng Saesneg newydd a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o 1 Ebrill 2026.

Lleoliad: Ffordd Hampden, Plas Madoc, Wrecsam, LL14 3US.

Bydd yr ysgol newydd yn darparu addysg ysgol gymysg i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n ymgyflwyno fel niwroamrywiol, gydag awtistiaeth fel eu prif faes cymorth. Bydd y nifer arfaethedig o leoedd ysgol, unwaith y bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith, yn hyd at 18. Bydd yr ysgol ar gyfer disgyblion o oedran uwchradd.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fydd yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol a bydd trefniadau derbyn yn cael eu gwneud drwy Banel Anghenion Dysgu Ychwanegol yr awdurdod lleol.

Ymdrinnir â thrafnidiaeth disgyblion drwy gyfeirio at Bolisi Cludiant Ysgolion yr Awdurdod Lleol. Mae manylion Polisi Derbyn a Pholisi Cludiant Ysgolion yr Awdurdod Lleol ar gael yn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd, a barn ymateb llawn Estyn ar gael ar wefan yr awdurdod lleol yn Ymgynghoriad: Darpariaeth Arbenigol Newydd ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

## Cyfnod Gwrthwynebu

O fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi dyddiad cyhoeddi’r cynigion hyn, sef erbyn **20 Medi 2025**, caiff unrhyw berson wrthwynebu’r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at:

Y Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Adeiladau’r Goron
31 Stryt Caer
Wrecsam
LL13 8BG

Neu drwy e-bost i: copaconsultation@wrexham.gov.uk

Llofnod: ... K Evans .............

Y Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar

Dyddiad: 16 Gorffennaf 2025

**Nodyn Esboniadol**
Nid yw hyn yn rhan o'r hysbysiad ffurfiol. Y bwriad yw rhoi rhagor o wybodaeth a chefndir i'r cynigion.

1. Mae'r cynnig hwn i greu ysgol arbennig newydd ar gyfer disgyblion 11-16 oed yn Ffordd Hampden, Plas Madoc, Wrecsam, LL14 3US.
2. Trwy gyflwyno'r cynnig hwn, mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r galw cynyddol am leoedd arbennig mewn ysgolion yn Wrecsam. Bydd hyn yn galluogi ystod oedran ehangach o blant ag anghenion dysgu ychwanegol i gael eu hanghenion dysgu a lles wedi'u diwallu mewn darpariaeth ysgol arbennig gofrestredig yn y Fwrdeistref Sirol.
3. Gellid denu disgyblion sy'n meddiannu lleoedd o bob rhan o Fwrdeistref Sirol Wrecsam.
4. Bydd cyllid dirprwyedig ar gyfer yr ysgol yn unol â fformiwla ariannu lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer ysgolion.
5. Mae'r ddogfen hon ar gael mewn copi caled neu mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu Saesneg ar gais. Mae hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch fel print bras, Braille, DVD BSL a CD sain ar gais. I wneud cais am y ddogfen hon mewn fformat neu iaith arall neu gopi caled:

    a. E-bostiwch copaconsultation@wrexham.gov.uk neu
    b. Ysgrifennwch at: Y Tîm Mynediad a Lleoedd Ysgol, Yr Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar, Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8BG.